# HARDDWCH Y NOS

"Rhwng y Garn a'r tonnau, rhwng y gwrych a'r ffos
Oes 'na *rhywbeth* yn digwydd yn nh'wllwch nos?"
Wel, oes! Mae 'na fwrlwm, tra'n bod ni'n ei gwlâu
Daw 'na bethau allan o nyth, twll a ffau!

Bryd hynny daw'r llwynog gan ddilyn ei drwyn
I chwilio am damaid o lech i lwyn,
Ac allan o'r duwch daw'r dylluan wen
Yn slei ei hadenydd ac yn ddoeth ei phen.

O siediau'r bythynnod ac o stablau'r Plas
I hela gwyfynnod daw'r ystlum ar ras,
Ac i dyllu am fwydyn mi ddaw'r broch i'r coed
Dan sleifio i bobman yn ysgafn ei droed.

Ond heb awyr dywyll, heb y fagddu fawr
Bydd dim oll yn digwydd rhwng machlud a gwawr.

*Ysgol Gynradd Edern*
*25 Chwefror 2026*